| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Medi 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau** |
| **Teitl:** | **Yr wybodaeth ddiweddaraf ar Berfformiad y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2013-2014** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae adroddiad perfformiad y PDC yn seiliedig ar y blaenoriaethau partneriaeth ar y cyd a nodwyd yn yr archwiliad troseddau sy'n cael ei gynnal yn flynyddol. Mae'r Bartneriaeth yn cytuno ar y blaenoriaethau am gyfnod o dair blynedd, ond fe ddiweddarir y cynllun yn flynyddol gydag unrhyw faterion sy'n codi.

1.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2013-2014.

1.3 Mae adroddiad perfformiad llawn 2013/14 wedi'i atodi

1.4 Mae'r adroddiad perfformiad yn cael ei drafod yn flynyddol yn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am berfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd yn 2013-2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Aelodau roi sylwadau ar y:

3.1 perfformiad yn 2013/14 (Atodiad 1); a

3.2 blaenoriaethau yn y dyfodol (Atodiad 2)

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Fe grëwyd PDC yn 1998 i ddatblygu a gweithredu Strategaethau a chynlluniau gweithredu i leihau trosedd ac anrhefn. Roedd gan bob Awdurdod eu PDC eu hunain. Tua 4 blynedd yn ôl fe unodd timau PDC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (CBSC), a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn un tîm unigol, gyda CBSC yn brif gyflogwyr. Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd sy'n arwain rheolaeth y PDC yng Nghyngor Sir Ddinbych.

4.2 Mae trefn cyfarfodydd y PDC yn cynnwys:

- Grŵp Strategol - sy’n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn – Presenoldeb CSDd; Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau (Liz Grieve), Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (Cyng D Smith) a chynrychiolydd CSDd ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Cyng B Tasker).

- Grŵp Gweithredu – mae hwn yn grŵp gweithredol sy’n cyfarfod bob chwarter i drafod unrhyw broblemau sy’n codi – Y Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Emlyn Jones) sy’n cynrychioli CSDd yn y cyfarfod hwn.

- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - yn cael ei gynnal bob chwe wythnos ac mae’r Uwch Swyddog Gorfodaeth (Tim Wynne-Evans) yn mynychu ar ran CSDd.

4.3 Y pum maes blaenoriaeth PDC ar gyfer 2011-2014 yw:

1. Lleihau troseddau a’r effaith ar y gymuned drwy:

    - Leihau troseddau treisgar
    - Monitro troseddau rhywiol difrifol
    - Lleihau troseddau meddiangar difrifol
    - Lleihau nifer y bobl sy'n dioddef troseddau dro ar ôl tro

2. Lleihau aildroseddu gan;

    - Leihau aildroseddu ymysg y troseddwyr mwyaf cyson
    - Lleihau troseddu ymysg unigolion dan 18 oed

3. Taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad sy’n effeithio ar yr amgylchedd drwy:

    - Leihau troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo trwyddedig
    - Lleihau argaeledd alcohol i bobl ifanc
    - Lleihau adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol
    - Cynyddu nifer y Rhybuddion Cosb Benodedig sy’n cael eu rhoi am droseddau amgylcheddol

4. Lleihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol a sylweddau trwy;

    - Gynyddu cysylltiadau newydd gan y Gwasanaeth Lleihau Niwed
    - Cynyddu nifer yr unigolion sy’n cael eu hatgyfeirio i driniaeth strwythurol

5. Taclo cam-drin domestig yn effeithiol drwy:

- Fonitro digwyddiadau domestig a throseddau domestig
- Gwella ymateb yr holl asiantaethau perthnasol i ddioddefwyr cam-drin domestig

4.4 Mae gan bob maes Blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad sydd wedi'u neilltuo i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Rydym yn adolygu pob un o'r ystadegau bob chwarter yn y grŵp Gweithredu ac yn gweithredu ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Mawr a'r Cynllun Corfforaethol.

5.2 Mae'r gwaith hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau gwasanaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r gweithgaredd o fewn y Cynllun Gweithredu wedi'i ariannu yn llawn gan grant.

6.2 Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn derbyn cyllid grant wedi'i neilltuo i gyflawni'r Cynllun Diogelwch Cymunedol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan yr holl Awdurdodau Cyfrifol sy'n eistedd ar Grŵp Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
Mae cyllid PDC Sir Ddinbych fel a ganlyn:

(a) Cronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau - £310,895 – Cyllid Llywodraeth Cymru. Nod y gronfa hon yw comisiynu gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

(b) Cronfa Cymunedau Diogelach - £166,939 – Cyllid Llywodraeth Cymru – gyda'r nod o leihau troseddwyr ifanc.

(c) Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd - £27,063 – Cyllid Llywodraeth Ganolog – ar gyfer materion lleol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

7. **Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Gan fod ffocws gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yr un fath ag yn y blynyddoedd blaenorol nid oes unrhyw Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

newydd wedi cael ei gynnal. Mae'r un a gyflwynwyd y llynedd yn dal i fod yn berthnasol.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorodd y PDC yn 2010 ar y Cynlluniau Gweithredu 2011-2015 drwy'r holl Awdurdodau â chyfrifoldeb (Cyfarwyddwr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd ac Awdurdod yr Heddlu).

8.2 Mae'r PDC yn rhoi gwybod yn flynyddol i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau'r Cyngor.

8.3 Mae'r PDC yn rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ôl yr angen

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylid cynnwys cost darparu'r Cynllun o fewn y cyllid allanol perthnasol sydd ar gael.

**10. Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y brif risg yw nad ydym yn gwybod beth fydd y cyllid diogelwch cymunedol ar gyfer 2015-2016. Mae cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ym mis Tachwedd 2012 wedi golygu bod ein cyllid Swyddfa Gartref wedi trosglwyddo i'r Comisiynydd i'w ddyrannu. Byddwn yn gallu gwneud cais am arian, ond bydd y penderfyniad yn y pen draw yn gorffwys gyda'r Comisiynydd a bydd yn rhaid iddo/iddi gydbwyso'r ceisiadau ar gyfer Gogledd Cymru. Er mwyn lliniaru'r risg, byddwn yn sicrhau bod ein holl achosion busnes yn gadarn, a bod gan bob prosiect ganlyniadau clir.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Diwygio'r Heddlu 2002
- Adran 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau (Trosolwg ac Archwilio) Trosedd ac Anrhefn 2009
- Erthygl 6.3.5 Cyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Conwy a Sir Ddinbych)
Ffôn: 01492 575190